PWY YW GWIR DDILYNWYR CRIST?

Nodyn i'r siaradwr:
Defnyddia esiampl Iesu a'r hyn oedd yn ei ddysgu i brofi mai Tystion Jehofa yw gwir ddilynwyr Crist. Esbonia'r prif bwyntiau gan ddefnyddio'r enghreifftiau gorau ar gyfer cefndir crefyddol a diwylliannol y rhai newydd

PAM MAE'N RHAID INNI ADNABOD *GWIR* DDILYNWYR CRIST? (4 mun.)

Ledled y byd, mae dros ddau biliwn o bobl yn datgan eu bod yn dilyn Crist (*w12*-E 3/1 3)

Maen nhw'n perthyn i filoedd o enwadau ac mae nhw'n amrywio'n eang o ran eu daliadau, safonau moesol, a'u ffyrdd o addoli

Dywedodd Iesu mai ei wir ddisgyblion fyddai'r rhai sy'n *gwneud* ewyllys ei Dad **[Darllen Mathew 7:21-23]**

Byddai llawer o bobl sy'n ei alw'n Arglwydd ddim yn deilwng o'i gymeradwyaeth

Mae'r bobl hynny wedi cael eu twyllo gan fath o Gristnogaeth sy'n ffug a diwerth

Gadewch inni drafod pedair o nodweddion gwir Gristnogaeth

MAE GWIR GRISTNOGION YN PARCHU GAIR DUW AC YN BYW'N UNOL Â'I SAFONAU (6 mun.)

Roedd Iesu yn ystyried bod pob rhan o Air Duw yn wir **[Darllen Ioan 17:17]**

Roedd yn dyfynnu ohono, yn ei amddiffyn ac yn ei esbonio (*cf*-E 98-107)

Yr Ysgrythurau oedd sail dysgeidiaethau Iesu a'i ddisgyblion (Lc 24:45; Act 17:2, 3)

Doedden nhw ddim yn dysgu traddodiadau nac athroniaethau dynol (Mc 7:6-8; Col 2:8; *w12*-E 3/1 4)

Mae gwir ddilynwyr Crist yn derbyn y Beibl fel yr awdurdod ar gyfer eu cred a'u harferion (1The 2:13)

Mae Tystion Jehofa yn byw'n unol â Gair ysgrifenedig Duw; mae hyn yn cwmpasu pob agwedd ar ein bywydau

Dydy Duw ddim yn hapus gyda'r rhai sydd yn *proffesu* bod yn Gristnogion heb ildio i'w ofynion

MAE *GWIR* DDILYNWYR CRIST YN AMLYGU ENW DUW (6 mun.)

Roedd Iesu yn anrhydeddu enw ei Dad ac yn ei wneud yn hysbys **[Darllen Ioan 17:6, 26, *BCND*]**

Mae gwir ddilynwyr Iesu yn cydnabod mai dim ond y rhai sy'n galw ar enw Jehofa fydd yn cael eu hachub (Rhu 10:13)

Yn ieithoedd gwreiddiol y Beibl, roedd enw Duw yn ymddangos tua 7,000 o weithiau

Mae llawer o gyfieithwyr y Beibl ac arweinwyr yr eglwysi sy'n honni bod yn Gristnogion wedi tynnu'r enw dwyfol allan o'u fersiynau nhw o'r Beibl ac o'u gwasanaethau (*w12*-E 3/1 7)

Mae Jehofa yn caru'r rhai sy'n ei ofni ac sy'n trysori ei enw (Mal 3:16-18, *BCND*)

Mae ei wir weision wedi cael y fraint o fod yn "bobl yn dwyn ei enw" (Act 15:14, *BCND*)

Mae ei Dystion, yn eu tro, yn falch o ddinoethi dysgeidiaethau sy'n dwyn gwarth ar enw Duw (*w09*-E 11/1 4-9)

MAE GWIR GRISTNOGION YN CYHOEDDI MAI TEYRNAS DDUW YW'R UNIG WIR OBAITH I DDYNOLRYW (6 mun.)

Teyrnas Dduw oedd thema gweinidogaeth Iesu **[Darllen Luc 4:43]** (*cf*-E 81-82 ¶10)

Mae gwir ddilynwyr Crist yn hysbysu beth yw Teyrnas Dduw a beth fydd yn ei gyflawni

Llywodraeth nefol yw Teyrnas Dduw, ac mae Crist yn Frenin arni (Esei 9:6; Da 7:14; Dat 11:15)

Cyn bo hir, bydd y Deyrnas yn rheoli dros y ddaear gyfan ac yn dod â heddwch parhaol (Esei 9:7; Da 2:44)

Mae Tystion Jehofa yn cyhoeddi ledled y byd mai Teyrnas Dduw yw'r unig obaith ar gyfer dynolryw (Mth 24:14)

Rydyn ni'n aros yn gwbl niwtral ynghylch materion gwleidyddol

Rydyn ni'n byw fel deiliaid Teyrnas Dduw ac yn rhoi'r Deyrnas honno yn gyntaf yn ein bywydau (Mth 6:33)

MAE GWIR DDISGYBLION IESU YN CAEL EU HADNABOD AM EU CARIAD (5 mun.)

Mae cariad hunan-aberthol yn dod â gwir Gristnogion at ei gilydd mewn brawdoliaeth unedig **[Darllen Ioan 13: 34, 35]**

Mae eu cariad yn codi uwchlaw gwahaniaethau mewn hil, diwylliant a statws cymdeithasol (*w12*-E 3/1 6)

Maen nhw'n helpu ei gilydd drwy dreialon a thrychinebau

Mae gan wir ddilynwyr Crist gariad at bawb, hyd yn oed y rhai sy'n eu gwrthwynebu (Mth 5:43-45)

Maen nhw'n gwneud ymdrech lew i rannu eu gobaith gydag eraill, gobaith sy'n seiliedig ar y Beibl

Maen nhw'n gwrthod defnyddio arfau yn erbyn eu cyd-ddyn (Esei 2:4; Mth 26:52)

PROFWCH EICH BOD YN UN O *WIR* DDILYNWYR CRIST (3 mun.)

Heddiw, mae 'na fwy o frys inni fyw fel gwir ddilynwyr Iesu na fuodd erioed (Lc 6:46; In 15:8)

Bydd Duw yn galw i gyfrif y rhai sy'n honni'n gelwyddog eu bod yn dilyn Crist (2Pe 2:1-3)

Ymchwiliwch ymhellach i ddysgeidiaethau ac arferion Tystion Jehofa gan eu cymharu â Gair Duw (Act 17:11)

Rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n ein hadnabod fel *gwir* ddilynwyr Crist ac y byddwch yn ymuno â ni mewn addoliad sy'n dderbyniol gan Jehofa Dduw a Christ Iesu

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School,* tudalennau 52-55, 166-169]

© 2017 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania